Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Dyddiad: 25 Ionawr 2021

Deialu Union: 01824 712568

e-bost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 2 CHWEFROR 2021** yn **VIA ZOOM**.

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN YSTOD Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**MYFYRDOD DISTAW**

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu sydd ganddynt ag unrhyw fusnes y nodwyd y byddir yn ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried ar frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020.

**5 GOHIRIO HOLIADUR CYSAG SIR DDINBYCH** (Tudalennau 13 - 14)

- Trafod gohirio anfon holiadur CYSAG Sir Ddinbych.

**6 DIWEDDARIADAU YNGHYLCH LLYWODRAETH CYMRU A'R CWRICWLWM NEWYDD** (Tudalennau 15 - 16)

- Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch datblygiadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.
- Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch fframwaith cefnogi Addysg Grefyddol
- Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch y Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol.

**7 ADDYSG GREFYDDOL A DYSGU CYFUNOL A DYSGU O BELL** (Tudalennau 17 - 18)

- Cael cyflwyniad ar yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell.

**8 CCYSAGC** (Tudalennau 19 - 20)

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020.
- Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC – y dyddiad i'w gadarnhau.

**9 DYDDIAD CYFARFOD NESAF SIR DDINBYCH**

- 24 Mehefin 2021
- 29 Hydref 2021

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Ellie Chard
Tony Flynn
Emrys Wynne
Rachel Flynn
Cheryl Williams

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Jennie Downes
Collette Owen

Y Parch. Martin Evans-Jones

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Mrs C Harmsworth
Mrs Maureen Phillips

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 14 Hydref 2020 am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Tony Flynn, Cheryl Williams ac Emrys Wynne

**Yn Cynrychioli  Enwadau Crefyddol**

Jennie Downes a Collette Owen

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon:**

Dim cynrychiolwyr yn bresennol

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Adnoddau Dynol (PL) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a SJ)

**MATERION O HYSBYSIAD**

(i) Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a’r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol yn sgil y pandemig  Coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell drwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i’r cyhoedd.

(ii) Yn absenoldeb cynrychiolydd athrawon ni chafodd gofynion cworwm y Cyngor eu diwallu.  Cytunodd yr Aelodau i barhau â'r cyfarfod ar y sail fod unrhyw benderfyniadau’n cael eu cadarnhau’n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor lle mae cworwm.  Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad fel yr oeddent a chytunwyd arnynt drwy gonsensws heb unrhyw bleidlais ffurfiol.

(iii) Roedd Collette Owen yn bresennol yn lle Mary Ludenbach fel cynrychiolydd yr Esgobaeth Babyddol ar y CYSAG .

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Dominic Oakes (Is-Gadeirydd) a’r Cynghorydd Rachel Flynn

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol gan ei bod yn un o Lywodraethwr Ysgol Tir Morfa.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020 (wedi'u cylchredeg eisoes).

**Materion yn Codi** – Tudalen 7 – Eitem 9 Cylchlythyr CYSAG - eglurodd yr ymgynghorydd Addysg Grefyddol y bu oedi mewn dosbarthu'r cylchlythyr i ysgolion oherwydd Covid-19 ond cadarnhaodd fod y wybodaeth ynddo yn dal yn berthnasol ac y byddai fersiwn dwyieithog yn cael ei e-anfon i'r ysgolion yn fuan.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.*

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2019/20**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AD yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer CYSAG Sir Ddinbych (wedi'i ddosbarthu eisoes) er cymeradwyaeth a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cynnwys y cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol a materion lleol a chenedlaethol eraill.

Atgoffodd yr Ymgynghorydd AD yr aelodau fod yr adroddiad blynyddol yn ddogfen hanesyddol a gofynnodd i'r aelodau ei chymeradwyo, yn amodol ar gywiro unrhyw gamgymeriadau os oedd rhai. Rhoddodd grynodeb o'r adroddiad a thynnodd sylw penodol at y canlynol:

- Dim ond dwywaith yr oedd CYSAG wedi cyfarfod yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol gyda'r cyfarfod tymor yr haf wedi'i ohirio oherwydd y pandemig.
- Ychydig a fu yn flaenorol i'w adrodd o dan y pennawd 'Darpariaeth Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol' ac roedd y cyflwyniad CYSAG gan Graham French o Brifysgol Bangor yn ychwanegiad i'w groesawu sy'n rhoi gwybodaeth am hyfforddiant athrawon a'r ffocws ar Addysg Grefyddol. Roedd disgwyliad y byddai perthnasoedd cadarnhaol yn parhau gyda chyfeiriadau at hyn yn adroddiadau blynyddol y dyfodol.
- roedd y cylchlythyr blynyddol cyntaf a oedd yn rhoi gwybodaeth bwysig i ysgolion ynglŷn ag AG a'r cwricwlwm newydd wedi'i gynnwys yn yr argymhellion.
- yn ychwanegol roedd cynnwys busnes CYSAG mewn rhai adroddiadau blynyddol eraill yng Nghymru yn fodd o hyrwyddo elfennau ehangach AD. Awgrymwyd yn y dyfodol bod CYSAG Sir Ddinbych yn derbyn cyflwyniadau perthnasol y gellid wedyn eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a hefyd yn y cylchlythyr blynyddol i ysgolion.
- Roedd yn dda nodi yn dilyn ceisiadau blaenorol gan aelodau bod yr adroddiad drafft ar gael yn ddwyieithog eleni fel rhan o becyn y rhaglen.

Roedd yr aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2019 -2020 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith y Cyngor.*

*(b) Y dylid gofyn i'r Awdurdod Lleol drefnu bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i ddosbarthu i holl ysgolion a cholegau Sir Ddinbych ac i dderbynyddion eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y'u dynodir yn yr adroddiad.*

## 6 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AD adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn dadansoddi canlyniadau arolygon Estyn o ddarpariaeth AD a chyd-addoli mewn tair ysgol rhwng Hydref 2019 – Chwefror 2020. Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanelwy; Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Bryn Hedydd.

Ystyriodd yr aelodau'r casgliadau cysylltiedig â phob ysgol ac roeddent yn falch o nodi'r sylwadau a'r canlyniadau cadarnhaol. Wrth dderbyn fod angen i Estyn ddilyn fformat rhagnodedig wrth cynnal eu harolygon teimlwyd yn gyffredinol y byddai adroddiad ychydig mwy 'unigol' ar gyfer pob ysgol yn ychwanegu gwerth a diddordeb.

Bu peth trafodaeth ynglŷn sut y mae ysgolion yn gorfod newid ac addasu dan amgylchiadau anodd i ddelio â chyfyngiadau a heriau Covid-19. Rhoddodd yr Ymgynghorydd AD wybodaeth am drafodaethau gyda rhai ysgolion ac amlygodd fanteision gwasanaethau dosbarth llai gyda chyfle i ddisgyblion fynegi eu meddyliau a'u hofnau a siarad am unrhyw broblemau gyda gwir bwrpas, rhywbeth sydd wedi profi i fod yn werthfawr iawn o ran lles disgyblion a staff. Cefnogodd Jennie Downes y safbwyntiau hyn a soniodd am ei phrofiad gydag ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Dywedodd er bod llawer o adnoddau yn mynd allan i'r ysgolion, bod yr ysgolion eu hunain hefyd yn cynhyrchu eu hadnoddau eu hunain a rhoddodd enghraifft i amlygu creadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth a'r gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud dan amgylchiadau anodd. Roedd yn teimlo mai'r her yw dod o hyd i ffyrdd o gofnodi'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud mewn ysgolion a'i rannu er budd eraill. Holodd y Cadeirydd a fyddai modd gofyn am y wybodaeth honno wrth ddosbarthu'r cylchlythyrau a chytunodd yr Ymgynghorydd AD y byddai'n gwahodd ymatebion anffurfiol o fewn yr e-bost at ysgolion. Awgrymodd Jennie Downes hefyd y gellid defnyddio Twitter ac amlygu a rhannu'r arfer da sy'n digwydd mewn ysgolion.

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) Anfon llythyr i bob ysgol a arolygwyd i roi gwybod iddynt fod yr Adroddiad Arolygu wedi'i ystyried, a'u llongyfarch ar y nodweddion da a amlygwyd a'u hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r Swyddogion*

*Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag ef.*

*(c) y dylid gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod*

## 7 CWRICWLWM CYMRU 2022

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AD ddiweddariad ar gynnydd fel a ganlyn -

- **Ymgynghoriad ar Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) -** tynnwyd sylw'r aelodau at ddwy agwedd benodol yn deillio o'r ymgynghoriad. Roedd y cyntaf yn berthnasol i'r cynnig i ddileu hawl rhiant i dynnu eu plant o wersi Addysg Grefyddol, rhywbeth sy'n peri pryder penodol. Roedd yr ail elfen yn ymwneud â'r cyfle i ddisgyblion gael addysg AD ysgolion gwladol mewn ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgolion Catholig. Y teimlad cyffredinol oedd y dylai'r sylabws yn yr ysgolion hynny fod yn ddigon amrywiol i ganiatáu i ddisgyblion dderbyn Addysg Grefyddol amryfath heb yr angen am ail sylabws. Byddai CCTSAGauC yn cyfarfod â'r Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc i gyflwyno eu dadl a thrafod y Bil yn fwy manwl. Anogwyd yr Aelodau i ddarllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoi adborth ar wefan Llywodraeth Cymru.
- **Cwricwlwm Cymru/Fframwaith AD –** nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r fframwaith drafft ar y cwricwlwm newydd eto.
  Roedd CYSAGauC wedi gofyn bod CYSAGau yn cael golwg ar y fframwaith ategol cyn iddo fynd drwy'r Senedd fel y gellid cytuno arno ac mae CCTSAGauC yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru i'w hatgoffa bod CYSAGau yn rhan annatod o ddatblygiad y fframwaith drafft. Pe bai CYSAG yn anghytuno â'r fframwaith gallai'r canlyniadau fod yn arwyddocaol - gallai CYSAG gytuno ar ei fframwaith ei hun ac ail-fabwysiadu'r sylabws cytunedig am gyfnod amhenodol.
- **Cymhwyster AG TGAU -** mae trafodaethau wedi bod ar y gweill dros y blynyddoedd diweddar ynglŷn â'r anawsterau y mae rhai disgyblion yn eu cael i gael mynediad i'r cymhwyster TGAU sydd wedi peri i rai aelodau o'r Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol ddatblygu eu cymhwyster arholi eu hunain a fydd o safon TGAU er mwyn diwallu'r gofynion statudol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4. Y bwriad oedd creu TGAU Adnoddau Dynol ffurfiol drwy Agored Cymru i'w gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru gyda'r posibilrwydd y gallai'r cymhwyster newydd ddechrau ym mis Medi 2021.

Diolchodd Jennie Downes i'r Ymgynghorydd AD am ei eglurhad clir a syml ar faterion cymhleth dros ben yn deillio o'r ymgynghoriadau ac am ei holl waith yn hyn o beth, Tynnodd sylw hefyd at ei phryderon ei hun o safbwynt y goblygiadau i ysgolion Yr Eglwys yng Nghymru a Christnogaeth yn deillio o'r cynigion.

Ychwanegodd yr Ymgynghorydd AD bod CYSAGauC wedi cyfarfod yr wythnos ddiwethaf drwy gynhadledd fideo a rhoddodd ganlyniadau'r etholiadau - roedd y ddwy swydd Swyddog Gweithredol wedi'u llenwi ganddo ef a John Meredith (CYSAG Powys) a phenodwyd Tania ap Sion (CYSAG Wrecsam) yn Is Gadeirydd.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar gan yr Ymgynghorydd AD.*

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd cyfarfodydd dyddiadau CYSAG 2021 fel a ganlyn:

2 Chwefror (dydd Mawrth), 24 Mehefin (dydd Iau) a 20 Hydref (dydd Mercher).

I gloi diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd AD am ei waith caled yn cefnogi'r CYSAG a diolchodd hefyd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)** | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 2 Chwefror 2021 |
| Eitem Agenda: | **5** | Manylion am yr Adroddiad |

*<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>*

Mae CYSAG Sir Ddinbych eisoes wedi cytuno i anfon holiadur ynghylch darpariaeth a safon Addysg Grefyddol i ysgolion. Oherwydd y cyfnod clo a'r cyfyngiadau Covid-19 presennol, mae ysgolion dan bwysau mawr. Efallai nad dyma'r amser gorau i a) anfon yr holiadur a b) i'r ysgolion ei lenwi.

*<u>Diben yr Adroddiad:</u>*

Trafod gohirio anfon yr holiadur a chytuno ar amser priodol i anfon yr holiadur at ysgolion.

*<u>Argymhellion:</u>*

- Gohirio'r holiadur tan dymor yr haf ar y cynharaf.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyngor Sir Ddinbych**
**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
**(CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | 2 Chwefror 2021 |
|---|---|---|
| Eitem Agenda: | **6** | Manylion am yr Adroddiad |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ymgynghoriad yn ystod tymor yr haf 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fframwaith cefnogi Addysg Grefyddol i bob CYSAG eu hystyried wrth greu Maes Llafur Cytûn newydd. Mae CCYSAGC wedi gofyn i Lywodraeth Cymru sut y byddant yn hyfforddi athrawon ynghylch gofynion Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm.

*Diben yr Adroddiad:*

Diweddaru'r aelodau ar ddatblygiadau ynghylch y cwricwlwm newydd, y fframwaith cefnogi a dysgu proffesiynol athrawon.

*Argymhellion:*

- Derbyn yr adroddiad

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>2 Chwefror 2021</td></tr>
<tr><td>Eitem Agenda:</td><td>7</td><td>Manylion am yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br>Mae ysgolion yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd oherwydd y cyfnod clo a’r argyfwng presennol.  Mae adnoddau dysgu cyfunol a dysgu o bell wedi’u rhoi i ysgolion er mwyn cefnogi’r ffordd newydd o weithio.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Diben yr Adroddiad:</u><br>Gwneud aelodau CYSAG yn ymwybodol o’r adnoddau sydd ar gael i ysgolion.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br>▪ Derbyn yr adroddiad llafar</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych**<br>**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)** | | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 2 Chwefror 2021 | |
| Eitem Agenda: | **8** | Manylion am yr Adroddiad | |

*Cefndir yr Adroddiad:*

Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas CYSAGau Cymru, ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd gan aelodau a oedd yn bresennol, copïau o'r cofnodion, ac unrhyw adroddiadau eraill gan y Gymdeithas.

*Diben yr Adroddiad:*

Gwneud yr aelodau'n ymwybodol o ganolbwynt a phrif ddeilliannau'r cyfarfod blaenorol.

*Argymhellion:*

- Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2020 – Ar-lein.
- Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar-lein – y dyddiad i'w gadarnhau.
-

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag